Michael Paget Baxter 1834–1910

Sefydlydd y Christian Herald

Ganwyd Michael Baxter ym 1834 i deulu o Gristnogion cyffyrddus eu byd. Roedd ei dad – a oedd yn ddisgynnydd i'r enwog Richard Baxter – yn gyfreithiwr yn Doncaster, De Swydd Efrog, a'i fam, Joanna Marie, yn ferch i fancwr. Roeddent yn Gristnogion o argyhoeddiad ac yn ymwneud â nifer o fudiadau Cristnogol fel y Church Missionary Society a'r Gymdeithas Feiblaidd Frutanaidd a Thramor. Cydweithiodd ei dad gyda'r Arglwydd Radstock i sefydlu'r Open Air Mission (1853), yr Evangelization Society (1864), y Christian Community a'r Soldiers' Homes.

Penodwyd ei dad i weithio gyda chwmni o gyfreithwyr enwog yn Llundain a symudodd y teulu i fyw yno. Daethant i gysylltiad â chylch o Gristnogion efengylaidd bonheddig oedd yn cefnogi'r Ragged Schools a'r Religious Tract Society.

Aeth Michael i Goleg y Drindod, Caergrawnt, ac yno y daeth i gredu yn yr Arglwydd Iesu. Daeth trwy fwlch yr argyhoeddiad wrth wrando ar y Parch. Samuel Martin yn pregethu yn Westminster Chapel, Llundain.

Newidiodd hyn ei fywyd yn llwyr. Roedd yn astudio'r gyfraith yn y coleg ond wedi iddo gredu teimlai alwad gan Dduw i fynd i'r weinidogaeth. Aeth i Rydychen i gael hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth gyda'r Anglicaniaid. Ym 1859 aeth draw i'r Unol Daleithiau ac yna i Ganada lle y daeth yn weinidog crwydrol poblogaidd. Gwnaeth argraff fawr ar Esgob Huron ac fe gafodd ei ordeinio yn yr Eglwys Anglicanaidd a'i benodi yn offeiriad yn Onondaga, Ontario.

Yn y cyfnod hwn roedd ganddo ddiddordeb ysol mewn proffwydoliaeth ac yn yr ailddyfodiad. Mewn dim o amser gadawodd yr eglwys gan fynd i bregethu hwnt ac yma. Er mwyn ceisio gwneud ei bregethau'n fwy trawiadol fe brynodd 'magic lantern' – ffurf gynnar ar PowerPoint! – gan ddangos tryloywon. Bu wrthi'n ddiwyd yn ysgrifennu a chyhoeddodd

nifer o lyfrau gan gynnwys *Louis Napoleon the Destined Monarch of the World* a werthodd 50,000 o gopïau a *Forty Coming Wonders* a werthodd dros 100,000 o gopïau.

Dychwelodd i Loegr ym 1863 a dechreuodd ddarlithio ar broffwydoliaeth. Penderfynodd y byddai'n gallu cyrraedd llawer mwy o bobl trwy'r gair ysgrifenedig. O ganlyniad dechreuodd gyhoeddi'r misolyn *Signs of Our Times* (1866). Wrth wrando ar yr efengylwyr enwog Sankey a Moody yn siarad yn Glasgow yng ngaeaf 1873–4 sylweddolodd yr angen am gyhoeddiad oedd yn cynnwys adroddiadau am gyfarfodydd a gweithgareddau cenhadol. Addasodd *Signs of Our Times* gan ei droi yn wythnosolyn oedd yn rhoi llawer mwy o le i efengylu. Wrth wneud hyn ceisiodd hefyd newid delwedd ddiflas cyhoeddiadau Cristnogol. Newidiodd y teitl i *The Christian Herald and Signs of Our Times* ym 1876 ac o hynny ymlaen ceisiodd gynnwys llawer mwy o luniau er mwyn ei wneud yn fwy trawiadol. Cynhwysai hefyd bregethau gan bregethwyr poblogaidd fel C. H. Spurgeon a Moody yn ogystal ag eitemau newyddion a fyddai o ddiddordeb i'r cyhoedd. Yn sgil hyn daeth llwyddiant ac fe gynyddodd y cylchrediad i 300,000 yr wythnos.

Ym 1877 anfonodd ddau ohebydd i'r Unol Daleithiau er mwyn sefydlu rhifyn Americanaidd o'r *Christian Herald.* Bu hwn eto yn llwyddiant mawr ond oherwydd pwysau gwaith bu'n rhaid iddo ei werthu ym 1890. Bu ei wraig Elizabeth o gymorth mawr iddo gyda'r *Herald* trwy ysgrifennu gwers Ysgol Sul wythnosol a golygu'r cylchgrawn misol *The Eleventh Hour.*

Bu Michael Paget Baxter farw ym 1910. Roedd yn ddyn eithriadol o hael tuag at nifer o fudiadau ac yn enwedig tuag at y tlodion. Roedd ei gyfraniad tuag at ddatblygiad newyddiaduraeth Gristnogol yn allweddol ac fe newidiodd ei waith a'i bwyslais gyfeiriad y wasg Gristnogol Saesneg ei hiaith.